*These notes refer to the Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 (c.3) which received Royal Assent on 27 Ionawr 2014*

# DEDDF RHEOLI CEFFYLAU (CYMRU) 2014

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### *Adran 1 – Trosolwg*

2. Mae'r adran hon yn crynhoi'r hyn y mae'r Ddeddf yn caniatáu i awdurdodau lleol ei wneud pan fo ceffylau mewn mannau cyhoeddus heb awdurdod cyfreithlon, neu ar dir arall heb ganiatâd meddiannydd y tir.

### *Adran 2 – P#er awdurdod lleol i ymafael mewn ceffylau*

3. Mae p#er gan awdurdod lleol i ymafael mewn ceffyl a chadw ceffyl sydd ar unrhyw briffordd, neu mewn unrhyw fan cyhoeddus arall y mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol amdano. Mae gan yr awdurdod lleol y p#er hwn hefyd os yw ceffyl ar dir arall yn ardal yr awdurdod lleol heb ganiatâd meddiannydd y tir hwnnw, ar yr amod bod y meddiannydd yn caniatáu i'r awdurdod lleol ymafael yn y ceffyl a'i gadw. Cyn y caiff yr awdurdod lleol ddefnyddio'r pwerau hyn, rhaid bod ganddo sail resymol i gredu bod y ceffyl ar y tir heb awdurdod cyfreithlon.

### *Adran 3 – Hysbysiadau ynghylch ymafael etc.*

4. Gwneir yn ofynnol bod awdurdod lleol, o fewn 24 awr ar ôl ymafael mewn ceffyl o dan adran 2, yn gosod hysbysiad ysgrifenedig yn y man yr ymafaelwyd yn y ceffyl, neu gerllaw'r man hwnnw, yn datgan y dyddiad a'r amser yr ymafaelwyd ynddo ac yn rhoi manylion sut y gellir cysylltu â'r awdurdod lleol. Rhaid i'r awdurdod lleol hefyd, o fewn 24 awr ar ôl ymafael mewn ceffyl, roi hysbysiad ysgrifenedig i gwnstabl (er mwyn rhoi gwybod i'r heddlu lleol am y modd y gweithredodd) ac i unrhyw berson sy'n ymddangos ei fod yn berchennog y ceffyl neu'n gweithredu ar ran perchennog y ceffyl.

5. Rhaid i'r awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i ganfod pwy yw perchennog y ceffyl cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl ymafael yn y ceffyl. Os yw'r awdurdod lleol, o fewn 7 niwrnod ar ôl ymafael mewn ceffyl o dan adran 2, yn darganfod mai person na roddwyd hysbysiad ysgrifenedig iddo o dan y Ddeddf yw perchennog y ceffyl, rhaid i'r awdurdod lleol, o fewn 24 awr, roi hysbysiad ysgrifenedig i'r person hwnnw. Os dyroddir hysbysiad yn yr amgylchiadau hyn (h.y. hysbysiad a roddir o dan adran 3(4)), mae'r cyfnod o 7 niwrnod yn cychwyn gyda dyddiad yr hysbysiad hwnnw.

6. Rhaid dyddio hysbysiadau o dan adrannau 3(3) a 3(4) a rhaid iddynt gynnwys disgrifiad o'r ceffyl a'r dyddiad, yr amser a'r man yr ymafaelwyd ynddo, ynghyd â manylion sut y gellir cysylltu â'r awdurdod lleol.

7. Rhaid i hysbysiad i berson y credir ei fod yn berchennog ceffyl, neu'n gweithredu ar ran y perchennog, ddatgan hefyd pam y mae'r awdurdod lleol yn credu bod y person hwnnw naill ai'n berchennog y ceffyl neu'n gweithredu ar ran y perchennog. Rhaid i'r hysbysiad ddatgan effaith gweithredu adran 5 (gwaredu ceffylau sydd wedi eu cadw), gan gynnwys y dyddiad y bydd y pwerau o dan adran 5 (3) yn dod ar gael i werthu'r ceffyl neu ei waredu fel arall (gan gynnwys trefnu i'w ddifa). Rhaid i hysbysiad a ddyroddir i gwnstabl ddatgan hefyd i bwy arall y dyroddwyd hysbysiad.

### *Adran 4 – Costau ymafael etc.*

8. Y perchennog sy'n atebol i dalu i'r awdurdod lleol unrhyw gostau a dynnir yn rhesymol wrth ymafael yn y ceffyl a'i gadw ac wrth ei fwydo a'i gynnal tra bo'n cael ei gadw. Nid yw'n ofynnol o dan y Ddeddf i awdurdod lleol ddychwelyd y ceffyl hyd nes y bydd y costau a dynnwyd yn y modd hwnnw wedi eu talu. Mae'r gyfraith gyffredinol yn gwneud yn ofynnol gofalu am y ceffyl tra bo'r ceffyl o dan reolaeth yr awdurdod lleol.

9. Rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad i'r perchennog o'r swm y mae'r perchennog yn atebol i'w dalu, ym marn yr awdurdod lleol, ynghyd ag esboniad sut y pennwyd y swm hwnnw.

10. Rhaid i'r hysbysiad hwnnw roi gwybod i'r perchennog hefyd fod hawl ganddo i gyfeirio unrhyw anghydfod ynghylch costau a hawlir gan yr awdurdod lleol at Weinidogion Cymru, a rhoi gwybod i'r perchennog sut i arfer yr hawl honno.

### *Adran 5– Gwaredu ceffylau sydd wedi eu cadw*

11. Mae adran 5 yn rhoi pwerau i'r awdurdod lleol werthu'r ceffyl, neu ei waredu fel arall, gan gynnwys gwneud trefniadau i'w ddifa. Rhaid cyflawni'r difa yn y modd mwyaf trugarog a di-boen sy'n bosibl. Mae'r adran hon yn gymwys yn ddarostyngedig i adran 7 (datrys anghydfodau am symiau taladwy).

12. Bydd darpariaethau'r adran hon yn gymwys os nad oes neb, ar ôl y cyfnod o 7 niwrnod sy'n cychwyn naill ai gyda'r dyddiad y gosodir hysbysiad o dan adran 3(1) neu y rhoddir hysbysiad o dan is-adran (4), wedi hysbysu'r awdurdod lleol naill ai mai ef yw perchennog y ceffyl neu ei fod yn gweithredu ar ran y perchennog. Bydd adran 5 yn gymwys hefyd, yn ddarostyngedig i adran 7, os yw'r perchennog wedi cysylltu â'r awdurdod lleol ond naill ai heb gydymffurfio ag adran 4(1) neu wedi cael hysbysiad o dan adran 4(3) yngl#n â'i atebolrwydd am gostau a heb dalu'r costau hynny ymhen 7 niwrnod at ôl cael yr hysbysiad hwnnw.

13. Caiff yr awdurdod lleol adennill hefyd unrhyw gostau a dynnir ganddo mewn perthynas ag unrhyw drefniadau ar gyfer gwaredu neu ddifa'r ceffyl o dan yr adran hon. Mae'r adran hon hefyd yn darparu, pan nad oes unrhyw enillion yn codi o waredu'r ceffyl, y caiff yr awdurdod lleol geisio adennill ei gostau wrth waredu'r ceffyl oddi ar y perchennog. Os oes enillion yn deillio o waredu'r ceffyl, ond y costau a dynnir gan yr awdurdod lleol yn fwy na swm yr enillion hynny, mae'r perchennog yn atebol i dalu i'r awdurdod lleol swm y gwahaniaeth rhwng yr enillion hynny a'r costau hynny.

14. Rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad i'r perchennog sy'n datgan y swm sy'n daladwy, ym marn yr awdurdod lleol, gan y perchennog mewn cysylltiad â gwaredu'r ceffyl, ynghyd ag esboniad sut y pennwyd y swm hwnnw.

15. Yn yr hysbysiad hwnnw hefyd, rhaid i'r awdurdod lleol roi gwybod i'r perchennog fod hawl ganddo i gyfeirio unrhyw anghydfod ynghylch y costau a hawlir gan yr awdurdod lleol at Weinidogion Cymru, a sut i arfer yr hawl honno.

16. Mae'r adran hon hefyd yn gwneud yn ofynnol bod yr awdurdod lleol yn talu i berchennog y ceffyl swm unrhyw enillion sy'n codi o'r gwaredu dros ben swm y costau a dynnwyd gan yr awdurdod lleol mewn cysylltiad â'r gwaredu; ond ni fydd yw'n ofynnol bod yr awdurdod lleol yn gwneud ad-daliad i unrhyw berson arall os yw eisoes wedi gwneud taliad i berson y credai'r awdurdod lleol yn rhesymol mai hwnnw oedd perchennog y ceffyl.

### *Adran 6 – Cofnod o'r ceffylau yr ymdriniwyd â hwy*

17. Mae'n ofynnol o dan yr adran hon bod yr awdurdod lleol yn cadw cofrestr o'r holl geffylau yr ymafaelwyd ynddynt o dan adran 2 o'r Ddeddf, a bod y gofrestr honno'n cynnwys disgrifiad byr o'r ceffyl, datganiad ynghylch y dyddiad, yr amser a'r man yr ymafaelwyd ynddo, datganiad ynghylch pryd y cafodd ei gadw, a manylion y camau

a gymerwyd i ddarganfod pwy yw ei berchennog. Yn ychwanegol, os gwaredwyd y ceffyl, y manylion â'r modd y'i gwaredwyd o dan adran 5. Rhaid i'r gofrestr fod yn agored i'r cyhoedd ei gweld (naill ai'n bersonol neu ar y rhyngrwyd) ar bob adeg resymol.

### *Adran 7 – Datrys anghydfodau am symiau taladwy*

18. Mae'r adran hon yn gymwys pan fo perchennog ceffyl yn herio'r swm y mae'r awdurdod lleol yn honni bod y perchennog yn atebol i'w dalu i'r awdurdod lleol o dan adran 4(1) neu 5(4); neu'r swm sy'n daladwy gan yr awdurdod lleol i berchennog y ceffyl o dan adran 5(5).

19. Caiff perchennog y ceffyl, o fewn 7 niwrnod ar ôl cael hysbysiad o dan adran 4(3) neu 5(7), gyfeirio'r anghydfod i'w ddatrys gan Weinidogion Cymru. Rhaid i'r perchennog, yn yr hysbysiad hwnnw i Weinidogion Cymru, roi datganiad o'r rhesymau dros herio'r swm a hawlir neu'r swm sy'n daladwy iddo, yn ôl fel y digwydd. Rhaid i Weinidogion Cymru anfon unrhyw hysbysiad o'r fath ymlaen at yr awdurdod lleol perthnasol, a chânt wneud yn ofynnol bod yr awdurdod lleol yn darparu iddynt unrhyw wybodaeth a all, yn eu barn hwy, eu cynorthwyo i ddatrys yr anghydfod. Caiff yr awdurdod lleol perthnasol hefyd gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru o fewn 7 niwrnod ar ôl cael gan Weinidogion Cymru yr hysbysiad o'r atgyfeiriad gan y perchennog.

20. Rhaid i Weinidogion Cymru ddatrys yr anghydfod cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol o dan yr holl amgylchiadau.

21. Pan fo'r anghydfod yn ymwneud ag adran 4(1), ni chaiff yr awdurdod waredu'r ceffyl cyn bo'r anghydfod wedi ei ddatrys.

### *Adran 8 – Diddymiadau canlyniadol*

22. Mae'r adran hon yn pennu'r darpariaethau perthnasol, a gynhwysir yn y tair Deddf leol, a fydd yn peidio â chael effaith oherwydd na fydd eu hangen pan ddaw'r Ddeddf hon i rym. Mae'r diddymiadau hyn fel a ganlyn:

   (a) adran 29 o Ddeddf Cyngor Dinas Caerdydd 1984 (p. xv);

   (b) yn adran 15(8) o Ddeddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol 1987 (p.vii), y geiriau "horses (including ponies, mules, jennets),"; ac

   (c) yn adran 35(7) o ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987 (c.viii), y gair "horses".

### *Adran 9 – Dehongli*

23. Mae'r adran hon yn pennu'r diffiniadau o "awdurdod lleol" a "ceffyl" yn y Ddeddf hon.

### *Adran 10 – Cychwyn ac enw byr*

24. Mae'r adran hon yn cadarnhau pa bryd y daw'r Ddeddf i rym ac yn pennu mai enw'r Ddeddf yw 'Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014'.